

Fy enw i yw Nick Hornby. Rwy'n arlunydd wedi'i leoli yn Llundain, ac rwyf wedi bod mewn sgwrs ag Alfredo Cramerotti, Cyfarwyddwr MOSTYN ers ychydig o flynyddoedd bellach. Rydyn ni wedi bod yn trafod delweddau a cherfluniau, ac fe wnaeth fy ngwahodd i ddod i roi fy arddangosfa sefydliadol gyhoeddus gyntaf at ei gilydd yma ym MOSTYN. Rwy'n gyffrous iawn i fod yn dangos pob un ohonoch.

Teitl yr arddangosfa yw 'Sygotau a Chyfaddefiadau' ac mae'n sioe hynod o bersonol i mi. Rydw i wedi bod yn gwneud cerfluniau ers deng mlynedd bellach ac mae'r gwaith wedi bod yn eithaf academiaidd ac yn eithaf difrifol; mae wedi bod yn eithaf llym. Fel pawb, mae eleni wedi bod yn anodd ac mae canlyniad y cyfnod cloi COVID wedi bod yn sioe sy'n hynod o bersonol ac yn hunangofiannol. Felly, mae yna dri math gwahanol o wrthrychau yn y sioe. Mae yna, math o, benddelwau meta-giwbig sy'n deillio o benddelwau marmor y 19eg ganrif sydd yn y V&A, yna mae'r cŵn Fictoraidd sydd weithiau'n cael eu galw'n "cŵn silff ben tân", ac mae'r gwrthrychau crwn hyn sy'n cael eu hysbrydoli'n rhannol gan haniaeth gynnar Parisaidd. Rydyn ni wedi eu clymu i gyd gyda'i gilydd gan ddefnyddio'r broses anhygoel hon o, rhyw fath o, ffotograffiaeth hylifedig. Rydyn ni'n argraffu delweddau ar swbstrad dyfrsail ac yna, yn anhygoel o ofalus, yn eu gosod ar wyneb dŵr - pryd y gallwch chi gymryd y cerfluniau a'u gwthio trwy wyneb y dŵr ac mae'r ffotograff yn lapio'r holl ffordd o gwmpas. Mae'n ffitio i mewn i bob twll a chornel ac mae'r dŵr yn tynnu o'i gwmpas. Mae'n fath o gymysgedd anghyffredin o farmori traddodiadol - yr un peth efallai fod gennych ar flaen y llyfr - a'r ffilteri a'r hylifedd sydd gennym nawr yn Instagram. Mae'r arddangosfa'n hynod o ffigurol, sy'n teimlo'n briodol ar y pryd. Cyffwrdd. Pobl. Mae yna lawer o edrych, a chael eich gwyllo, felly pan fyddwch chi, y gwylwiwr sy'n cerdded o amgylch y gofod, gobeithio, yn teimlo fel cyfranogwr, rhywun o'r tu allan, a hefyd rhywun sy'n cyfrannu at yr holl gyfnewidiadau a deialogau ar draws y gwrthrychau.. Mae gan y gwrthrychau blaenau a chefnau; cerfluniau ydyn nhw, maen nhw'n dri dimensiwn, ac yna mae ganddyn nhw hefyd gwagle delwedd y ffotograff sydd wedi'i gymhwyso i'r gwrthrych. Wrth i chi, yn fath o, lywio'r cerfluniau gallwch gael eich gwyllo, gallwch chi fod yn edrych i mewn i ddyfnder darluniadol y llun, gallwch chi gael eich bownsio'n ôl a'ch adlewyrchu gan yr, math o, lac sglein uchel. Felly teitl yr arddangosfa yw 'Sygotau a Chyfaddefiadau'. Mae cymariaethau wedi bod yn ddi-ddorol iawn i mi erioed: gwrthwynebiad deuaid, traethodau ymchwil ac antithesau. Yn y byd go iawn rydyn ni bob amser .. rydyn ni'n aml yn cymharu pethau sydd fel: 20% yn erbyn 80%. Gyda chelf weithiau gofynnir i chi gwestiynu pethau sy'n anoddach eu cymharu: sut ydych chi'n cydbwysu meteoryn â Porsche? er enghraifft, a dyna bwrpas y teitl hwn i mi; y gwall categori hwn. Math o derm gwyddonol yw sygot ac mae'n cyfeirio at embryo cyn-rywioli, cyflwr cyn-embryo cylch bywyd dynol, a chyffesiadau - wel dyna ... yn yr achos hwn, fy stori, fy hunangofiant.

Mae'r gyfres o ddarnau yma hefyd yn ymgysylltu â pherthnasoedd, pobl rydw i wedi dod ar eu traws - perthnasoedd personol iawn; mae'n sioe hunangofiannol. Felly gobeithio bod gan eich profiad o'r darnau deimlad anhanesyddol rhyfedd. Ar y naill law, mae'r penddelwau Fictoraidd yn ennyn y math o uchder yn 1850, mae'r blobiau'n teimlo'n eithaf modernaidd, ond yna, gobeithio, mae rhywbeth eithaf anghyson ynglŷn â synwyrusrwydd y ddelwedd a'r sglein. Rwy'n meddwl am y pethau hyn bron fel yr amlygiad o sgrin iPhone. Mae'r dangosydd grisial hylifol yna o sgrin yr iPhone wedi dod yn amlwg trwy'r broses ddelwedd hylifedig hon, felly prif gymeriadau'r gwrthrychau hyn yw, yn llythrennol, y prif gymeriadau rydw i'n siarad â nhw trwy fy ffôn - y peth anhygoel o agos-atoch y mae rhywun yn ei

wneud. Mae yna hefyd llawer o dechnoleg yn cymryd rhan â hyn. Mae'r gwrthrychau wedi'u cynllunio yn CAD, o fewn cyfrifiadur, yna'n cael eu ffabrigo'n ddigidol, eu torri'n ddigidol, ac mae rhywfaint o lithriad rhwng y deyrnas ddigidol a'r deyrnas analog.

Mae un o'r pethau y mae artistiaid yn meddwl amdano - y sgwrs rydw i wedi'i chael gydag Alfredo - wedi ymwneud â hanes a sut mae gen i agwedd eithaf anhanesyddol tuag at bethau. Rwy'n credu ei bod hi'n bosibl i ffeindio cerflun o'r Dadeni mor berthnasol heddiw â chlwr blaen papur newydd. Mae peth tebyg yn digwydd yn yr arddangosfa hon lle mae'r penddelwau, er enghraifft, yn deillio o benddelwau marmor Fictoraidd yn Oriolau Hintze yn y V&A o tua 1850 a 1880. Mae'r ffordd rydw i wedi eu hail-ymgynnull, trwy gyfrifiadur, mae'r gwrthrychau hefo'r teimlad o giwbiaeth- felly 1920 - ac wedyn mae'r haen olaf yma rydw i wedi'i hychwanegu trwy'r ddelwedd yn ei symud hyd at heddiw: delwedd ddirlawn cyfryngau cymdeithasol, Instagram hylifedig, ffug dwfn, sefyllfa ffiltro wyneb; felly gobeithio eich bod chi'n edrych ac, ar yr un pryd, yn gweld yr hanes hwn yn gwastatáu.

Man cychwyn am yr arddangosfa, mewn gwirionedd, oedd cyfres o weithiau a wnes i gyda ffotograffydd o'r enw Louie Banks. Mae'n ffotograffydd anhygoel. Mae'n adnabyddus am saethu llawer o ffasiwn ben uchel a hefyd yr olygfa queer yn Llundain. Roedd wedi saethu rhai perfformwyr trawsrywiol a siaradwn am gydweithio. Y peth sy'n eithaf rhyfedd am y gwrthrychau hyn yw bod ganddyn nhw'r wyneb sgleiniog llyfn iawn yma, sydd, rwy'n meddwl, yn teimlo'n eithaf melys ac yn atolygu i'w gyffwrdd, ond yna o dan yr wyneb sgleiniog mae'r delweddau agos-atoch hyn o ddarnau o rannau'r corff - weithiau mewn dillad nofio - felly mae yna daw'r foment fach letchwith hon lle rydych chi am gyffwrdd â'r cerflun ond efallai y byddwch hefyd yn cyffwrdd â chorff y prif gymeriad.

Rwy'n hoff o'r anghyfforddusrwydd.